Ysgol Penrhyn-coch

Dechrau mis Hydref hyfryd oedd cael croesawu dau ddisgybl newydd i'n plith. Yn Nhonyfelin 56 Ger-y-llan y mae Nicola a'i brawd Philip yn byw. Daethant yma o Gaerffili gyda'u rhieni Mr a Mrs Richards. Dymunwn bob hapusrwydd i'r teulu bach. Swyddog yn y gwasanaeth sifil yw Mr Richards.

Yn ystod y mis bu Miss Jane Chopping, Llwyngronw yn gwneud cyfnod o ymarfer dysgu gennym. Erbyn hyn mae'n dilyn cwrs yng Ngholeg y Brifysgol Aberystwyth. Dymunwn bob llwyddiant iddi.

Ymwelodd Mr a Mrs J. E. Mc-Kenzie-Hall, Blaencastell â ni un prynhawn a chyflwynwyd ganddynt lyfrau ac offer at wasanaeth yr ysgol. Rydym yn diolch yn gynnes iawn iddynt am eu caredigrwydd ac yn dymuno'n dda iddynt yn eu cartref newydd yn Llundain.

Braf yw cael llongyfarch aelodau'r tim pêl-droed ar eu llwyddiant yng nghystadleuaeth Cwpan y R.A.F.A. Bu'n Sadwrn prysur ar faes chwarae Plas-crug. Curo tim Dyffryn Ystwyth oedd eu camp gyntaf, ac yna llwyddo i ennill yn erbyn tim o'r Waun-fawr. Daeth yn amser wedyn i chwarae â thim o'r Ysgol Gymraeg Aberystwyth ac ennill a fu eu hanes y tro hwn eto. Yn y gêm derfynol profodd tim o Ysgol Penparcau yn rhy gryf i fechgyn ysgol y Penrhyn. Cafwyd chwarae graenus er hynny a chyflwyd wyd medalau i aelodau'r tim gan un o swyddogion y R.A.F.A. Da iawn fechgyn!

Mae plant y ddau ddosbarth uchaf yn awr yn edrych ymlaen i dreulio wythnos yng ngwersyll Pentywyn. Gobeithio'n fawr y bydd tywydd mis Tachwedd yn profi'n garedig i ni. Byddwn yn y gwersyll gyda phlant o ysgolion Pen-llwyn a Llanfarian.